# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Robert G Parry OBE FRAgS (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones a R.Meirion Jones. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Uwch Swyddog Adnoddau Dynol (CW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Dim |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd, 2019.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNIADAU:-**

**"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 APWYNTIO STAFF**

**Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Dros Dro**

Derbyniwyd 4 cais ar gyfer y swydd uchod.

Adroddodd y Prif Weithredwr y derbyniwyd pedwar cais am y swydd ac argymhellwyd bod y pedwar ymgeisydd yn cael eu rhoi ar y rhestr fer. Felly, bydd yr ymgeiswyr yn dilyn y broses recriwtio fel rhano'r broses benodi.

Gofynnodd yr Uwch Swyddog Adnoddau Dynol i’r Pwyllgor gadarnhau y byddai’r drefn sefydledig yn cael ei defnyddio ar gyfer cam nesaf y broses benodi. Cytunodd y Pwyllgor i gynnal asesiad drwy gyfrwng prawf seicometrig allanol annibynnol. Cyflwynir adroddiad llafar ar ganlyniad yr asesiad i’r Pwyllgor Penodiadau yn ystod y cyfweliadau terfynol. Yn ogystal, bydd y Prif Weithredwr a’r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid yn cynnal cyfweliad proffesiynol, yn unol â’r drefn sefydledig. Bydd adborth o’r cyfweliad proffesiynol yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Penodiadau yn ystod y cam cyfweld terfynol.

**PENDERFYNWYD bod y 4 ymgeisydd yn mynd ymlaen i gam nesaf y broses benodi.**

*(Ataliodd y Cynghorydd A M Jones ei bleidlais am iddo gyrraedd yn hwyr i’r cyfarfod).*

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**